# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Thomas Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Aled M. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Jim Evans, Eric Jones, R. Llewelyn Jones, G. W. Roberts OBE, Ieuan Williams |
| **WRTH LAW**: | Swyddog Adran 151 Dros Dro & Chyfarwyddwr Cyllid<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (JF)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd J. P. Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr Martin George (PwC) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod cadarnhad wedi'i gael na fyddai Mr Anthony Barratt, yr Archwilydd Apwyntiedig yn rhyddhau Adroddiad Budd y Cyhoedd yng nghyswllt methiant yr Awdurdod i lynu wrth y cyfnod amser statudol gyda chyhoeddi ei Ddatganiad Cyfrifon 2010/11. Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid bod y wybodaeth uchod wedi'i rhoi i Swyddogion gan Ms Lynn Hine, PwC oedd wedi cadarnhau bod yr Archwilydd Apwyntiedig wedi rhoddi ystyriaeth ddyledus i'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Cyllid yn y cyfnod dros dro ac ar y sail hynny yr oedd wedi penderfynu peidio â rhyddhau Adroddiad Budd y Cyhoedd. Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio eu diolchgarwch i Ms Lynn Hine am gysylltu gyda'r Archwilydd Apwyntiedig ar ran y Pwyllgor a chyfleu ei deimladau ar y mater hwn iddo yn y ffordd yr oedd wedi gwneud.

**2 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU: RHAGLEN REOLAETHOL AR GYFER ARCHWILIO PERFFORMIAD - EBRILL 2011 I FAWRTH 2012**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd gyda Rhaglen Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Archwilio Perfformiad yn ystod y cyfnod o Ebrill 2011 i Fawrth 2012 ynghyd â'r Amlinelliad Archwiliad Ariannol Blynyddol am flwyddyn Archwilio 2011/12.

Roedd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid am atgoffa'r Pwyllgor iddo gael ei gytuno yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor fis Rhagfyr 2011 y byddai'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod fis Chwefror 2012 yn derbyn diweddariad ynglŷn â Rhaglen Reoleiddiol Swyddfa Archwilio Cymru a Chynllun Archwilio PwC. Roedd yr adroddiad uchod yn delio â chynnydd ar waith yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gynllunio yn 2011/12 fel rhan o'i Raglen Reoleiddiol ar gyfer Archwilio Perfformiad. Tra roedd rhai o'r gweithgareddau y gwnaed cyfeiriad atynt yn yr adroddiad yn gallu ymestyn y tu hwnt i fis Ebrill a Mawrth a gorgyffwrdd o ran blynyddoedd ariannol, roedd y naratif a'r dadansoddiad yn yr adroddiad yn cyfeirio at y cyfnod hwnnw o flwyddyn. Roedd canfyddiadau'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau y sonnir amdanynt yn yr adroddiad yn cael ei hadlewyrchu naill a'i yn yr Asesiad Corfforaethol (gyda llythyr diweddaru wedi'i anfon ynglŷn â hyn i'r Prif Weithredwr dros dro ym mis Awst 2011) neu yn yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol ddosbarthwyd fis Ionawr 2012. Eglurodd y Swyddog mai rôl y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r adroddiad uchod oedd sicrhau bod y

cyfan o’r adroddiadau rheolaethol yn cael eu derbyn ac y byddir yn delio’n briodol â hwy gan y Fforwm perthnasol gyda hynny’n golygu na fydd y Pwyllgor Archwilio o anghenraid yn ystyried nac yn sgriwtineiddio’r holl ddeilliannau o’r adroddiadau hynny. Fe fydd y Pwyllgor, fodd bynnag, angen cael ei sicrhau bod Cynlluniau gwaith yn eu lle neu eu bod wedi’u paratoi i gefnogi unrhyw argymhellion wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ar hyn o bryd, mae’r Gwasanaethau Polisi yn y broses o ddiweddaru bob gweithgaredd rheolaethol ac yn casglu at ei gilydd adroddiad fydd yn nodi pa adroddiadau rheolaethol a dderbyniwyd a sut y deliwyd â hwy, ac efallai y byddai o ddefnydd i’r Pwyllgor Archwilio ofyn am i’r adroddiadau hynny gael eu cyflwyno iddo ochr yn ochr â’r diweddariad chwarterol ar Raglen Rheolaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr Aelodau yn gytûn i dderbyn yr awgrym fel dull defnyddiol i’r Pwyllgor gadw ar y blaen i unrhyw gynnydd gyda gweithgaredd rheolaethol o fewn y Cyngor ac i gymryd trosolwg o’r sefyllfa reolaethol gyffredinol, ac fe wnaed cynnig i’r perwyl hwnnw a’i eilio.

Cyfeiriodd Mr Martin George, PwC yr Aelodau at yr Amlinelliad Archwilio Ariannol Blynyddol a chadarnhawyd ei statws fel un terfynol. Dywedodd i’r Adroddiad gael ei baratoi er mwyn cyfarfod â gofynion safonau archwilio ac arferion archwilio a rhoi i Gyngor Sir Ynys Môn amlinelliad o’r gwaith archwilio ariannol oedd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2011-12. Roedd yr adroddiad yn crynhoi’r dull archwilio ac yn dogfennu’r prif risgiau ariannol a gweithredol a wynebir gan y Cyngor ac a allai gael effaith ar yr archwiliad fel oedd wedi’i nodi yn ystod y broses gynllunio archwiliad cychwynnol ynghyd â’r gweithredu a fwriadwyd i fynd i’r afael â hwy. Roedd y broses adrodd yn ôl ffurfiol, yn unol â’r safonau moesol ac archwilio perthnasol, wedi’i amlinellu ym mharagraffau 18 i 23 yr adroddiad a’r Ffi Archwilio ac roedd wedi’i nodi ym mharagraffau 24 i 28 yr adroddiad beth oedd yn dod o fewn ei orchwyl ar hyn nad oedd wedi’i gynnwys. Dywedodd y Swyddog bod y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2011-12 yn dal i fod yn destun ei gymedroli gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe gaiff y Pwyllgor wybod am y ffi derfynol unwaith y caiff hynny ei benderfynu.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid ddiweddariad i’r Pwyllgor ar y cynnydd hyd yma ar faterion oedd wedi’u nodi fel risgiau oedd angen sylw yn dilyn cynhyrchu cyfrifon 2009/10 a 2010/11 yn hwyr. Roedd adroddiad wedi’i gyflwyno i’r Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2012 yng nghyswllt cryfhau’r canol corfforaethol yn cynnwys y swyddogaeth gyllid. Roedd llawer o waith wedi’i wneud mewn perthynas â pharatoi cyfrifon 2011/12 ac fe ellir dweud bod cyfrifon 2010/11 bellach wedi cael eu hardystio. Fe gafwyd cyfarfod di-briffio llawn gyda’r archwilwyr ynglŷn â’r broses o gynhyrchu cyfrifon 2010/11 er mwyn trafod yr hyn a wnaethpwyd yn dda a’r hyn y gellid ei wella ac wedyn fe roddwyd cynllun yn ei le er mwyn cyflymu proses Cau Cyfrifon 2011/12. Mae’r Cyfrifydd dros dro a gyflogwyd i gefnogi’r broses o gynhyrchu’r cyfrifon wedi’i gadw hyd nes ceir cymeradwyaeth i gryfhau’r swyddogaeth gyllid. Bydd y Cynllun a’r gweithdrefnau a ddatblygwyd yn awr yn destun adolygiad cymheiriaid gan swyddogion o awdurdod arall. O safbwynt y trefniadau cyfrifo cyfalaf, mae’r system gyfrifo asedau sefydlog newydd yn awr yn ei le ac yn weithredol a’r gobaith yw y bydd hwn yn llyfnhau proses y cyfrifon. Bydd y Cyfrifydd dros dro hefyd yn rhoi hyfforddiant i staff mewnol i’w helpu hwy i ddarparu ar gymhlethdodau cyfrifo cyfalaf. O safbwynt Amcangyfrifon Rheoli o fewn y Datganiadau Ariannol, fe ddarperir adroddiad i’r Pwyllgor Archwilio yn gosod allan yr Amcangyfrifon Rheoli a’r Canlyniadau mewn perthynas â balansau allweddol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) wrth yr Aelodau bod cyfrifo asedau sefydlog wedi cael sylw manwl ac iddo fod yn destun prosiect sylweddol. Eglurodd sut yr oedd y system gyfrifo asedau sefydlog newydd yn gwella ar y trefniadau oedd yn ei lle cyn hynny. At hyn, roedd llawer o amser wedi’i dreulio ar yr agweddau paratoadol o fewn y broses o gynhyrchu’r cyfrifon gyda hynny’n golygu cael mewnbwn gan yr Archwilwyr allanol ar gyfnod llawer cynt er mwyn cael sicrwydd bod y systemau mewn trefn a bod y broses ar y llwybr iawn. Eglurodd y Swyddog hefyd beth oedd y camau a gymerwyd yn cynnwys gwaith gyda’r Prisiwr Sirol, mewn perthynas â sicrhau triniaeth gyfrifo briodol i Asedau Treftadaeth.

Codwyd y materion canlynol gan yr Aelodau yn y drafodaeth a ddilynodd ar y wybodaeth oedd wedi’i chyflwyno:

- *Astudiaeth Thematig Llywodraethu Gwybodaeth* - Roedd yr Aelodau eisiau gwybod sut oedd perfformiad yr Awdurdod yn y maes hwn yn cymharu gyda pherfformiad Awdurdodau eraill yng Nghymru. Rhoddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid adroddiad i’r Pwyllgor ar gynnydd a wnaed a’r camau a gymerwyd yn dilyn derbyn adroddiad ac argymhellion ynghylch llywodraethu gwybodaeth y flwyddyn ddiwethaf, a rhoddodd grynodeb trwy ddweud nad

yw'r Awdurdod hwn yn gyffredinol mewn safle drwg a bod ganddo weithdrefnau gweddol dda a chadarn mewn rhai meysydd ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth er nad yw'r sefyllfa'n gyson ar draws y cyfan o wasanaethau'r Cyngor. Crybwyllodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod adolygiad o ddiogelwch data mewn perthynas yn benodol â data electronig wedi'i ymgorffori o fewn Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol a bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn. Roedd yna hefyd drafodaeth ar storio data nad oedd yn electronig gyda chyfeiriad arbennig at yr Archifau.

- *Recriwtio* - Roedd yr Aelodau yn dymuno cael gwybodaeth a oedd y sefyllfa ynglŷn â recriwtio i swyddi allweddol wedi gwella o dderbyn bod yr anawsterau gyda llenwi swyddi yn barhaol yn y Tîm Cyllid wedi'i nodi fel risg yn y broses o baratoi'r cyfrifon. Roeddent hefyd yn bryderus y gallai cyflogi staff asiantaeth ddod yn rhywbeth cyffredin, ac roeddent eisiau gwybod a oedd yn rhan o'r cynllun i gryfhau capasiti i wneud apwyntiadau parhaol i swyddi yn y gwasanaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod yna anawsterau yn parhau gyda recriwtio i rai swyddi ond roedd camau a gymerwyd i gryfhau capasiti ac i gyflogi staff ychwanegol yn helpu'r sefyllfa ac felly hefyd y broses ar wahân i edrych ar y broses recriwtio yn ei chyfanrwydd. O safbwynt y broses o baratoi'r cyfrifon yn benodol, roedd llawer o amser a gwaith wedi'i fuddsoddi yn y 12 mis diwethaf i ddod â gweithgareddau yn ôl ar y llwybr a'r gobaith yw y bydd yr ymdrechion hynny yn ogystal â chamau a gymerwyd i gryfhau'r system a'r gweithgareddau sy'n cefnogi'r broses o gau'r cyfrifon yn hwyluso'r broses gyda chyfrifon 2011/12. Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid bod yna nifer o ffactorau yn creu'r anawsterau recriwtio. Y cynllun yw ceisio cael tracio deuol ar brofiad ac arbenigedd staff dros dro i ddatblygu staff mewnol a hefyd i geisio denu staff allanol allai fod angen cyngor arbenigol gan AD yn sgopio'r swyddi sydd wedi profi i fod yn rhai anodd i'w llenwi er mwyn eu gwneud hwy yn rhai mwy deniadol. Tra y gall cyflogi staff asiantaeth fod yn opsiwn mwy costus, mae'n beth defnyddiol yn y tymor byr i ategu staff er mwyn gwneud a gorffen tasg benodol yn arbennig mewn awdurdodau lle mae yna gapasiti cyfyngedig.
- *Rheoli Asedau* – Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ar y gwaith a wnaed yn y maes hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad diweddaru ar gynnydd gyda Rhaglen Reolaethol Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt Archwilio Perfformiad am y cyfnod o Ebrill 2011 i Fawrth 2012 ynghyd â'r Amlinelliad Archwilio Ariannol am 2011/12 ac i nodi eu cynnwys.**
- **Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) drefnu i adroddiad trosolwg y Gwasanaeth Polisi ynglŷn â gweithgaredd rheolaethol o fewn y Cyngor, fod ar gael i'r Pwyllgor Archwilio.**

## 3 CYNLLUN TWYLL CENEDLAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad yn amlygu cynnydd y Cyngor hyd yn hyn gyda gwaith ar y Cynllun Twyll Cenedlaethol fel rhan o'i ymrwymiad i nodi ac i ymchwilio i dwyll. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai ymarfer matsio data yw'r Cynllun Twyll Cenedlaethol sy'n helpu i ddarganfod twyll a gordaliadau o'r pwrs cyhoeddus ar draws y DU a phwysleisiwyd bod yna werth mewn cymryd rhan yn yr ymarfer hwn hyd yn oed pe na bai yna unrhyw werth ariannol yn deillio ohonynt gan eu bod yn annog pobl i beidio twyllo fel oedd yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad cyhoeddus uchod oedd yn arwydd o ba mor ddifrifol y mae'r Pwyllgor Archwilio'n gweld twyll.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio wrth yr Aelodau bod y Cyngor yn delio gyda'r ymarfer Cynllun Twyll Cenedlaethol ar ddwy lefel wahanol a hynny'n golygu bod y gwaith yn cael ei rannu rhwng dwy adain wahanol, gyda'r rheolaeth gyffredinol gan y Rheolwr Archwilio Mewnol. Yr Adain Twyll Budd-daliadau yn Adain Refeniw a Budd-daliadau'r Adran Gyllid sy'n cymryd cyfrifoldeb am yr holl achosion sy'n debygol o ddigwydd o fewn twyll Budd-dal Tai a Threth Gyngor, gyda'r Adain Archwilio Mewnol yn gyfrifol am yr holl fatsus eraill gyda gwybodaeth am ganlyniad yr ymarfer Cynllun Twyll Cenedlaethol 2010/11 i'w gweld o dan Adran 5 yr adroddiad. Mae'r Cyngor yn fodlon bod lefel bresennol y staff wedi bod yn fwy na digon i wneud y gwaith a bod y gwaith hwnnw wedi cael ei wneud fel rhan o ddyletswyddau naturiol yr Adeiniau Archwilio Mewnol a Thwyll Budd-daliadau. Gan gyfeirio at ymarfer matsio data 2010/11, roedd 3,456 o fatsus wedi'u nodi gyda 677 ohonynt yn ymwneud â Budd-dâl Tai a Threth Gyngor. Fe adroddodd yr Adran Archwilio Mewnol yn ôl na chafwyd unrhyw enghreifftiau o dwyll neu anghysondebau o ganlyniad i'w gyfranogiad yng Nghynllun Twyll Cenedlaethol 2010/11. Roedd 129 o achosion wedi'u siecio gan y Tîm Twyll Budd-dal a'r canlyniad

fu cychwyn 18 o ymchwiliadau twyll llawn. Fel ag y mae pethau, mae ymarfer Cynllun Twyll Cenedlaethol 2010/11 wedi nodi pedwar achos o dwyll budd-dal yn ogystal â nodi 3 achos lle gwelwyd camgymeriad yn swm budd-dal oedd yn cael ei dalu. Mae cyfanswm y budd-dal a ordalwyd ar hyn o bryd yn £27,315 ac y mae ar y gweill i'w adennill yn ôl i'r Cyngor. Roedd yr adroddiad yn amlygu canlyniad llwyddiannus i'r ymarfer ar ffurf erlyn unigolyn oedd wedi hawlio Budd-dal Tai a Threth Gyngor yn dwyllodrus.

Ystyrir bod y Cynllun Twyll Cenedlaethol yn offeryn defnyddiol i rwystro twyll ac y mae'r Cyngor yn llawn fwriadu cymryd rhan mewn ymarferion yn y dyfodol gan barhau gyda'i ymrwymiad i nodi a brwydro yn erbyn twyll a chamgymeriadau. Rhagwelir y bydd yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol, erbyn yr ymarfer nesaf, wedi cyhoeddi ei bapur Brwydro Twyll yn Lleol a byddir wedi dysgu arfer dda ynglŷn â sut i ymchwilio i fathau eraill o dwyll yn erbyn y Cyngor allai gynnwys twyll Tenantiaeth Tai a thwyll Caniatâd Parcio Bathodyn Glas.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

## 4 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS: STRATEGAETH MRP A STRATEGAETH BUDDSODDI FLYNYDDOL 2012-13

Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu Strategaeth Rheoli Trysorlys drafft 2012/13 yn cynnwys y cefndir manwl i'r fframwaith ar gyfer benthyca a buddsoddi a gweithgaredd benthyca arall ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r tymor canolog.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) sylw at y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Strategaeth ddrafft yn seiliedig ar y tybiaethau arferol ar gyfer benthyca yn seiliedig ar y Cynllun Busnes CRT 30 mlynedd ac ar ddyraniadau benthyca cefnogol i Lywodraeth Cymru.
- At hyn, fe ddisgwylir y bydd y strategaeth derfynol 2012/13 yn cynnwys benthyciadau i bwrpasau tai fydd yn gyson â'r Strategaeth Tai Fforddiadwy yn ogystal â darparu Cynllun Benthyca Awdurdod Lleol Llywodraeth Cymru.
- Mae Swyddogion hefyd yn ystyried y rhinweddau o gymryd rhan yng Nghynllun Morgais Awdurdod Lleol: bydd hyn yn ymwneud â phrosesau awdurdodi penodol a bydd yn cael ei gyflwyno ar wahân i'r Cyngor Sir.
- Mae'r Pwyllgor Gwaith a'r Comisiynwyr wedi penderfynu y dylai'r Cyngor ddarparu benthyciadau i bwrpasau tai, o fewn cyllidebau cyfalaf a gymeradwywyd i'r pwrpas hwn. I bwrpas bod yn gyflawn, fe ddylid cynnwys y rhain yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
- Bod cadarnhad wedi'i dderbyn gan y Gweinidog Trafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru am fenthyca newydd i Lywodraeth Leol i ariannu buddsoddiad Cyfalaf Gwella Priffyrdd lle mae yna ddyraniad o £4m o gyllid refeniw ar gyfer 2012/13 fydd yn cynyddu mewn blynyddoedd i ddod. Y bwriad yw y bydd y cyllid refeniw yn diogelu gwariant o £170m dros 3 blynedd. Roedd cyfran Ynys Môn oedd ychydig yn fwy na 3% o'r cyfanswm cenedlaethol yn sicrhau gwariant o £5.25m tros 3 blynedd. Fe ystyriwyd yr agwedd hon yn lleol yn y gorffennol ac, os bydd yna ddiogelwch digonol ar gael, yna fe fydd hwn yn ffynhonnell gyllid ychwanegol o bwys. Awgrymir bod y Pwyllgor Archwilio'n ystyried hyn mewn egwyddor ac yn cymeradwyo cynnwys y £5.25m o fewn y Strategaeth.

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad a cheisiwyd cael eglurhad o rai eitemau yn arbennig mewn perthynas â Chynllun Morgais Awdurdod Lleol ar hyn yr oedd yn ei olygu'n ymarferol ac o ran capasiti. Rhoddodd y Swyddog eglurhad i'r cwestiynau a ofynnwyd.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys drafft am 2012/13.**
- **Nodi y bydd y benthyciadau i bwrpasau tai fforddiadwy ac a gyllidir gan gyllidebau cyfalaf yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth i bwrpasau cwblhau pethau.**
- **Nodi'r bwriad i gymryd rhan yn y Cynllun Morgais Awdurdod Lleol.**
- **Cymeradwyo cynnwys o fewn y Strategaeth y £5.25m o fenthyciad tros dair blynedd o dan y Cynllun Benthyca Lleol.**

## 5 RHEOLI'R TRYSORLYS – TRYDYDD CHWARTER 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad am y sefyllfa mewn perthynas â gweithgaredd Rheoli Trysorlys yn y Trydydd Chwarter 2011/12 er gwybodaeth yn unol â'r gofynion adrodd yn ôl yng Nghôd Ymarfer newydd CIPFA a ryddhawyd fis Tachwedd 2009. Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad gan nodi ei gynnwys.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

## 6 DIWEDDARIAD GAN ARCHWILIO MEWNOL

Cafwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio Mewnol yn rhoi diweddariad dros dro ar waith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Archwilio fis Rhagfyr 2011.

Roedd y Rheolwr Archwilio Mewnol am amlygu'r pwyntiau canlynol yn yr adroddiad:

- Y sefyllfa gyda chynnydd yr adolygiadau ar 7 Chwefror 2012 fel oedd yn Nhabl 1.
- Bod y gwaith paratoi ac ymgynghori ar y Strategaeth Archwilio Mewnol 2012/15 ar y gweill. Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried meysydd i'w cynnwys yn y Strategaeth yn seiliedig ar risg sylweddol, pwysigrwydd neu effeithlonrwydd gweithredol.
- Bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am y swydd Archwilydd Mewnol wedi cau ar 10 Chwefror. Bydd y ceisiadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried a bydd ymgeiswyr addas sy'n bodloni gofynion y swydd ddisgrifiad a'r manylion personol yn cael cyfweliad yn y dyfodol agos gyda golwg ar i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau yn ei swydd o 2 Ebrill 2012.
- Yn dilyn ail hysbysebu'r rôl o Aelod Annibynnol i weithredu ar y Pwyllgor Archwilio, fe gafwyd 17 cais am wybodaeth a hynny'n arwain at 7 cais wedi hynny. Argymhellir bod Swyddogion yn adolygu ac yn sgorio'r 7 cais a gyflwynwyd ar gyfer nodi eu haddasrwydd yn erbyn y meini prawf a'u rhoi ar restr fer i'w cyfweld. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad.
- Hyfforddiant Pwyllgor Archwilio. Roedd crynodeb o sesiynau hyfforddi a gynlluniwyd ac a ddarparwyd wedi'u cynnwys yn Adran 6 yr adroddiad.
- Roedd crynodeb o ganlyniad yr adolygiadau dilynol i Reoli Asbestos (Eiddo) a Rheoli Asbestos (Tai) gyda'r ddau faes wedi derbyn adroddiadau Sicrwydd Coch, i'w weld yn adran 7 yr adroddiad.
- Statws y gwaith ymchwilio arbennig roedd Archwilio Mewnol yn ei wneud fel yn Adran 8 yr adroddiad.
- Fersiynau diwygiedig o'r Protocol Archwilio Mewnol ar Siarter Archwilio Mewnol oedd ynghlwm i'r adroddiad fel Atodiadau A a B. Gofynnwyd i'r Pwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y dogfennau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhai cyfredol.

Roedd yr Aelodau yn fodlon i'r Swyddogion fynd drwy'r ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio gyda golwg ar lunio rhestr fer o ymgeiswyr addas ar gyfer eu cyfweld.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad diweddaru a nodi ei gynnwys.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Archwilio Mewnol werthuso'r ceisiadau ar gyfer Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio yn erbyn y meini prawf penodol gyda golwg ar roi ymgeiswyr addas ar restr fer i'w cyfweld.**
- **Cymeradwyo'r Protocol Archwilio Mewnol a'r Siarter Archwilio Mewnol oedd i'w gweld yn Atodiadau A a B yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Thomas Jones**
**Cadeirydd**